Iechyd a Gofal Digidol Cymru
Digital Health and Care Wales

Gwneud **digidol yn rym er gwell** ym maes iechyd a gofal
Making **digital a force for good** in health and care

# CYLCH GORCHWYL A THREFNIADAU GWEITHREDU

## Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD

| | |
|---|---|
| Fersiwn y Ddogfen | 1 |

| | |
|---|---|
| Statws | Cymeradwywyd |

| | |
|---|---|
| Awdur y ddogfen: | Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol \| Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Cymeradwywyd gan | Marian Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Dyddiad cymeradwyo: | Ionawr 2025 |
| Dyddiad adolygu: | Ionawr 2026 |

TŶ GLAN-YR-AFON 21 Heol Ddwyreiniol y Bont-Faen, Caerdydd CF11 9AD

TŶ GLAN-YR-AFON 21 Cowbridge Road East, Cardiff CF11 9AD

| AMCAN STRATEGOL | Darparu Gwasanaethau Digidol o Ansawdd Uchel |
|---|---|

| DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL | Cymru Iachach |
|---|---|
| Os yw mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Cymru lewyrchus<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | |

| SAFONAU ANSAWDD IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU | ISO 9001 |
|---|---|
| Os yw mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>ISO 14001<br>ISO 13485 | |

| GALLUOGWR Y DDYLETSWYDD ANSAWDD | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd |
|---|---|
| PARTH ANSAWDD | Dewiswch eitem. |
| Os oes mwy nag un safon yn berthnasol, rhestrwch nhw isod:<br>Gofal Diogel | |

| DATGANIAD YR ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB | Dyddiad cyflwyno: Ddim yn berthnasol |
|---|---|
| Na, (mae'r manylion am y rhesymau wedi'u cynnwys isod) | Canlyniad: Ddim yn berthnasol |
| Datganiad: Ddim yn Berthnasol | |

**LLWYBR CYMERADWYO/CRAFFU:** Unigolyn/Pwyllgor/Grŵp sydd wedi derbyn neu ystyried

| PWYLLGOR NEU GRŴP | DYDDIAD | CANLYNIAD |
|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 18 Ionawr 2022 | Cymeradwywyd |
| Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig | 31 Mawrth 2022 | Cymeradwywyd |
| Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 14 Ebrill 2022 | Cymeradwywyd |
| Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig | 30 Mawrth 2022 | Cymeradwywyd |
| Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 14 Chwefror 2023 | Cymeradwywyd |

| | | |
|---|---|---|
| Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig | Mawrth 2023 | Cymeradwywyd |
| Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | 21 Ionawr 2025 | Cymeradwywyd |
| Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig | 28 Ionawr 2025 | Cymeradwywyd |

| ASESIAD O'R EFFAITH | |
|---|---|
| GOBLYGIADAU/EFFAITH ANSAWDD A DIOGELWCH | Ie, gweler y manylion isod |
| | Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys goruchwylio ansawdd a chydymffurfiaeth reoliadol |
| GOBLYGIADAU/EFFAITH GYFREITHIOL | Ie, gweler y manylion isod |
| | Bydd y Pwyllgor yn goruchwylio dyletswyddau statudol |
| GOBLYGIADAU/EFFAITH ARIANNOL | Ie, gweler y manylion isod |
| | Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r gwaith o sefydlu a chynnal system effeithiol o lywodraethu, polisïau a rheolaethau ariannol |
| GOBLYGIADAU/EFFAITH Y GWEITHLU | Nac oes, nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar adnoddau o ganlyniad i'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn. |
| | |
| GOBLYGIADAU/EFFAITH ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL | Nid oes unrhyw oblygiadau economaidd-gymdeithasol penodol yn gysylltiedig â'r gweithgarwch a amlinellir yn yr adroddiad hwn |
| | |

# TABL CYNNWYS

1 HANES Y DDOGFEN ..... 5
1.1 HANES ADOLYGU ..... 5
1.2 ADOLYGWYR ..... 5
1.3 AWDURDODI ..... 6
1.4 LLEOLIAD Y DDOGFEN ..... 6
2 CYFLWYNIAD ..... 6
3 PWRPAS Y PWYLLGOR ..... 7
4 AMCANION Y PWYLLGOR ..... 7
4.1 Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg ..... 7
4.2 Cyllid ..... 8
4.3 Archwiliad Mewnol ..... 8
4.4 Archwilio Allanol ..... 8
4.5 Gwasanaethau Caffael a Masnachol ..... 9
4.6 Gwerth ac Effeithlonrwydd ..... 9
4.7 Safonau Ansawdd ..... 9
4.8 Sicrwydd Rheoleiddio Dyfeisiau Meddygol ..... 10
4.9 Y Gwasanaeth Atal Twyll ..... 10
4.10 Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Ystadau a Chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch ..... 10
5 MYNEDIAD ..... 10
6 CYFARFODYDD ..... 10
6.1 Tynnu unigolion a oedd yn bresennol yn ôl ..... 10
6.2 Dosbarthu Papurau ..... 11
7 AELODAETH, MYNYCHWYR A CHWORWM ..... 11
7.1 Aelodau ..... 11
7.2 Trwy wahoddiad ..... 11
7.3 Apwyntiadau ..... 11
7.4 Cworwm ..... 12
8 LLYWODRAETHU ..... 12
8.1 Perthynas ac atebolrwydd gyda'r Bwrdd a'i Bwyllgor/Grwpiau ..... 12
8.2 Trefniadau Adrodd a Sicrwydd ..... 12
8.3 Cymhwysedd rheolau sefydlog i Fusnes y Pwyllgor ..... 12
9 CYFEIRIADAU ..... 12
10 DIFFINIADAU ..... 13

# 1 HANES Y DDOGFEN

## 1.1 HANES ADOLYGU

| Dyddiad | Fersiwn | Awdur | Crynodeb Adolygu |
|---|---|---|---|
| 01.12.20 | D0.1 | Sophie Fuller | Drafft cychwynnol |
| 24.02.21 | D0.2 | Sophie Fuller | Ail ddrafft |
| 18.03.21 | D0.3 | Sophie Fuller | Trydydd drafft |
| 25.03.21 | D0.4 | Chris Darling | Pedwerydd drafft |
| 15.04.21 | D0.5 | Chris Darling | Pumed drafft yn cynnwys sylwadau'r Cadeirydd |
| 28.04.21 | D0.6 | Chris Darling | Chweched drafft gan gynnwys sylwadau'r Cadeirydd |
| 04.01.21 | D0.7 | Chris Darling | Seithfed drafft wedi'i ddiweddaru ar gyfer adolygiad blynyddol |
| 30.11.2022 | D0.8 | Laura Tolley | Wythfed drafft wedi'i ddiweddaru ar gyfer adolygiad blynyddol |
| Ionawr 2024 | D0.9 | Laura Tolley | Nawfed drafft wedi'i ddiweddaru ar gyfer adolygiad blynyddol |
| | | | |

## 1.2 ADOLYGWYR

Mae angen yr adolygiadau canlynol ar y ddogfen hon:

| Dyddiad | Fersiwn | Enw | Swydd |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2021 | 0.2 | Mark Cox | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Chwef 2021 | 0.2 | Julie Ash | Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol |
| Chwef 2021 | 0.2 | Julie Francis | Pennaeth Gwasanaethau Masnachol |
| Chwef 2021 | 0.2 | Chris Darling | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Chwef 2021 | 0.2 | Claire Osmundsen-Little | Cyfarwyddwr Cyllid |
| Maw 21 | 0.3 | Claire Osmundsen-Little<br>Chris Darling | Cyfarwyddwr Cyllid<br>Ysgrifennydd y Bwrdd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maw 21 | 0.4 | Claire Osmundsen-Little<br>Chris Darling | Cyfarwyddwr Cyllid<br>Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Ebr 21 | 0.5 | Marian Jones | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Ebr 21 | 0.6 | Claire Osmundsen-Little<br>Chris Darling | Cyfarwyddwr Cyllid<br>Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Rhagfyr 2022 | 0.8 | Chris Darling | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Ionawr 2024 | 0.9 | Chris Darling | Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Ionawr 2025 | | Chris Darling | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |

## 1.3 AWDURDODI

Mae llofnodi'r ddogfen hon yn dangos eich bod yn derbyn ei chynnwys.

| | |
|---|---|
| **Enw'r Awdur:** | Chris Darling |
| **Rôl:** | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **Llofnod:** | Recoverable Signature<br>X Chris Darling<br>Chris Darling<br>Director of Corporate Affairs<br>Signed by: Andrea Harris (An286780) |

| | |
|---|---|
| **Enw'r Cymeradwywr:** | Marian Wyn Jones |
| **Rôl:** | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| **Llofnod:** | Recoverable Signature<br>X Marian Jones<br>Approver<br>Chair of Audit and Assurance Committee<br>Signed by: Andrea Harris (An286780) |

## 1.4 LLEOLIAD Y DDOGFEN

| Math | Lleoliad |
|---|---|
| Electronig | System Reoli Integredig / iPassport |

## 2 CYFLWYNIAD

Yn unol ag Adran 3.3 o'r Rheolau Sefydlog, bydd y Bwrdd yn enwebu Pwyllgor bob blwyddyn sy'n cwmpasu'r gwaith archwilio. Bydd cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys Sicrwydd, Ansawdd a Llywodraethu Corfforaethol ac fe'i gelwir yn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu manwl a osodwyd gan y Bwrdd mewn perthynas â'r Pwyllgor hwn wedi'u nodi isod.

Mae'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn i'w darllen ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu safonol sy'n berthnasol i bob pwyllgor.

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod yr holl bapurau'n cael eu dosbarthu o leiaf un wythnos galendr cyn y cyfarfod ac yn pennu'r trefniadau ysgrifenyddol a chymorth ar gyfer y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn mabwysiadu'r Cylch Gorchwyl hwn yn ei gyfarfod cyntaf a bydd yn destun adolygiad o leiaf bob blwyddyn wedi hynny.

## 3 PWRPAS Y PWYLLGOR

Pwrpas y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ("y Pwyllgor") yw:

- Rhoi **sicrwydd** i'r Bwrdd ac i'r Prif Weithredwr (sef y Swyddog Atebol) bod trefniadau effeithiol ar waith
  - trwy ddylunio a gweithredu fframwaith risg a sicrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru
  - i'w cefnogi wrth iddynt wneud penderfyniadau a chyflawni eu dyletswyddau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion, yn unol â'r safonau llywodraethu da sydd wedi'u gosod i GIG Cymru.
- Lle y bo'n briodol, **cynghori'r** Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar ble, a sut, y gellir cryfhau a datblygu ei systemau a'i fframwaith sicrwydd ymhellach.
- **Cymeradwyo** polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoledig ysgrifenedig eraill ar ran y Bwrdd

Bydd y Pwyllgor yn gweithredu yn unol â Llawlyfr Pwyllgor Archwilio'r GIG.

## 4 AMCANION Y PWYLLGOR

O ran ei rôl yn darparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd, bydd y Pwyllgor yn gwneud sylwadau penodol ar y canlynol:

### 4.1 Rheolaeth Fewnol a Rheoli Risg

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r gwaith o sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaeth fewnol a rheoli risg. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn adolygu digonolrwydd:

- pob datganiad datgelu sy'n gysylltiedig â risg a rheolaeth (yn enwedig y Datganiad Llywodraethu Blynyddol), ynghyd ag unrhyw ddatganiad Pennaeth Archwilio Mewnol, barn archwilio allanol neu sicrwydd annibynnol priodol arall, cyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo;

- y strwythurau, y prosesau a'r cyfrifoldebau ar gyfer nodi a rheoli risgiau clinigol ac anghlinigol sy'n wynebu'r sefydliad;
- Cofrestr Risg Sefydliadol yr Awdurdod Iechyd Arbennig a digonolrwydd y gwaith o graffu ar risgiau strategol gan Bwyllgorau penodedig;
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd;
- y polisïau ar gyfer sicrhau bod cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio, cyfreithiol, cod ymddygiad ac atebolrwydd perthnasol.
- effeithiolrwydd adnabod, rheoli, uwchgyfeirio a monitro risg
- y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr holl waith sy'n ymwneud â thwyll a llygredd fel y'u nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ac fel sy'n ofynnol gan NHS Protect a'r Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch.
- Materion yn ymwneud â gwaith Atal twyll.
- newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo
- yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phob achlysur pan hepgorir Rheolau Sefydlog neu Gyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

## 4.2 Cyllid

Bydd y pwyllgor yn adolygu'r gwaith o sefydlu a chynnal system effeithiol o lywodraethu, polisïau a rheolaethau ariannol.  Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn adolygu digonolrwydd:

- y polisïau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau cyfrifyddu perthnasol, gofynion statudol ac atebolrwydd.
- effeithiolrwydd gweithredol ac ariannol cymhwyso polisïau a gweithdrefnau
- newidiadau arfaethedig i'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog a'r Gweithdrefnau Rheoli Ariannol
- yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â phob achlysur pan hepgorir Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn gwneud y canlynol:

- Derbyn a phenderfynu ar gamau gweithredu mewn ymateb i ddatgan buddiannau aelodau'r Bwrdd a swyddogion eraill yn unol â chyngor a gafwyd gan Ysgrifennydd y Bwrdd;
- Cymeradwyo achosion unigol ar gyfer dileu colledion neu wneud taliadau arbennig uwchlaw terfynau dirprwyo i'r Prif Weithredwr a swyddogion;
- Adolygu pob colled a thaliad arbennig;
- Sicrhau'n ôl-weithredol unrhyw bryniant / gwariant uwchlaw terfyn ariannol dirprwyedig y Prif Weithredwr.
- Pan fydd galw ar y pwyllgor, dilysu materion yn ymwneud ag arian ar gais y Bwrdd.

## 4.3 Archwiliad Mewnol

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Goruchwylio'r gwasanaeth y mae Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd PCGC yn ei ddarparu, gan gynnwys sicrhau eu bod yn darparu gwerth am arian;
- Adolygu'r rhaglen archwilio mewnol, ystyried prif ganfyddiadau ymchwiliadau archwilio mewnol, sicrhau cydgysylltiad rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol a sicrhau bod holl ymatebion rheolwyr i argymhellion yn briodol ac yn amserol;
- Sicrhau bod gan y swyddogaeth Archwilio Mewnol adnoddau digonol a bod ganddi statws priodol o fewn y sefydliad;
- Sicrhau ei hun bod yr archwiliad mewnol yn cydymffurfio â gofynion safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus;

- Monitro gweithrediad amserol y rheolwyr o argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt.

## 4.4 Archwilio Allanol

Bydd y Pwyllgor yn ystyried bod y gwaith a wneir gan ffynonellau allweddol o sicrwydd allanol, yn benodol ond heb fod yn gyfyngedig i archwilwyr allanol yr Awdurdod Iechyd Arbennig, yn cael ei gynllunio a'i gydlynu'n briodol a bod canlyniadau gweithgarwch sicrwydd allanol yn ategu ac yn hysbysu (ond nid yw'n disodli) gweithgarwch sicrwydd mewnol.

Bydd y Pwyllgor yn gwneud y canlynol:

- Cymryd rhan yn y drafodaeth ofynnol gyda'r Archwilydd Allanol yn unol â'r cynllun archwilio y cytunwyd arno, cyn i'r archwiliad gychwyn, nodi natur a chwmpas yr archwiliad a sicrhau cydgysylltiad, fel y bo'n briodol, ag Archwilwyr Allanol eraill yn yr economi iechyd leol a chyda'r Archwilydd Mewnol;
- Adolygu adroddiadau Archwilio Allanol, gan gynnwys adroddiadau gwerth am arian a llythyrau archwilio blynyddol, ynghyd ag ymateb y rheolwyr;
- Monitro gweithrediad amserol y rheolwyr o argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt;
- Derbyn adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru / Swyddfa Archwilio Cymru ar ganlyniadau ei archwiliad o'r cyfrifon blynyddol cyn argymell mabwysiadu'r cyfrifon hynny i'r Swyddog Atebol a'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

Bydd y Pwyllgor yn adolygu'r datganiadau ariannol blynyddol cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- newidiadau mewn polisïau ac arferion cyfrifyddu, a chydymffurfiaeth â hwy;
- prif feysydd dyfarnu;
- addasiadau sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad;
- cydymffurfio â gofynion cyfreithiol;
- adolygu unrhyw gamddatganiadau perthnasol a nodwyd yn ystod yr Archwiliad.

## 4.5 Gwasanaethau Caffael a Masnachol

Bydd y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ar ran y bwrdd bod gweithgarwch caffael digonol yn cael ei wneud yn unol â datganiad polisi caffael Cymru a dogfennau polisi perthnasol eraill.

I gynnwys:

- Cydymffurfiaeth gyffredinol
- Craffu ar gontractau tendr sengl
- Rheolaeth barhaus ac adolygiad o'r broses gontractio a thendro

## 4.6 Gwerth ac Effeithlonrwydd

Bydd y pwyllgor yn rhoi sicrwydd ar ran y Bwrdd bod cynlluniau arbedion digonol ar waith, lle bo angen, ac yn craffu i asesu cynnydd y gwaith o'u cyflawni i sicrhau gwerth am arian i'r sefydliad. Lle y bo'n briodol, bydd y Pwyllgor yn darparu argymhellion a chamau gweithredu ar gyfer camau adfer ac yn tynnu sylw'r bwrdd at feysydd sy'n peri pryder.

## 4.7 Safonau Ansawdd

Bydd y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd ar system rheoli ansawdd y Sefydliad, gan sicrhau bod swyddogaeth archwilio a gwella ansawdd effeithiol ar waith sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd

I gynnwys:

- y systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer sicrhau bod Safonau Ansawdd yn ddigonol
- bod y gwaith o graffu ar y prosesau Gwella Ansawdd yn ddigonol ac yn amserol a bod gweithgareddau'n cael eu cydgysylltu ar draws y sefydliad
- goruchwylio gwaith yr Uned Seibergadernid

## 4.8 Sicrwydd Rheoleiddio Dyfeisiau Meddygol

Bydd y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd ar ran y Bwrdd am ymrwymiad y sefydliad i sicrhau cydymffurfiaeth o fewn y Gyfarwyddeb Dyfeisiau Meddygol. Bydd y newid i reoliadau a gofynion Dyfeisiau Meddygol i gefnogi hyn yn cael ei amlinellu a bydd y cynnydd yn cael ei adrodd. Bydd unrhyw ddiweddariadau i'r ddeddfwriaeth yn cael eu gweithredu yn unol â'r broses newid mewnol ac mewn cydweithrediad ag arweinwyr y Safonau.

## 4.9 Y Gwasanaeth Atal Twyll

Bydd y Pwyllgor yn adolygu digonolrwydd y polisïau a'r gweithdrefnau ar gyfer yr holl waith sy'n gysylltiedig â thwyll a llygredd fel y nodir yng Nghyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ac fel sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth Atal Twyll a Rheoli Diogelwch trwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Gwneud sylwadau ar bolisïau atal twyll, prosesau chwythu'r chwiban (codi pryderon) a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig, a digonolrwydd adnoddau atal twyll.

Bydd y Pwyllgor yn cwrdd â'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol heb bresenoldeb swyddogion ar o leiaf un achlysur bob blwyddyn.

## 4.10 Cynaliadwyedd Amgylcheddol, Ystadau a Chydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch

Bydd y Pwyllgor yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod y mesurau priodol ar waith i sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol a chydymffurfiaeth â Deddfwriaeth Ystadau Iechyd a Diogelwch.

# 5 MYNEDIAD

Bydd gan Bennaeth Archwilio Mewnol ac Archwilio Cymru a'u cynrychiolwyr fynediad cyfrinachol a digyfyngiad at Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar unrhyw adeg, ac i'r gwrthwyneb.

Bydd y Pwyllgor yn cwrdd ag Archwilwyr Mewnol ac Allanol yn ogystal â'r Arbenigwr Atal Twyll Lleol, heb bresenoldeb swyddogion, o leiaf unwaith bob blwyddyn.

Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fynediad rhesymol at y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch-staff perthnasol eraill. Yn ogystal, bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn trosglwyddo unrhyw faterion yn uniongyrchol i Gadeirydd neu Brif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel y mae'n teimlo sy'n briodol.

# 6 CYFARFODYDD

Cynhelir cyfarfodydd ddim llai na phedair gwaith y flwyddyn, ac fel arall yn ôl barn Cadeirydd y Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu cyfarfodydd i gyd-fynd â gofynion statudol allweddol yn ystod y flwyddyn, yn unol â chynllun blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Fusnes y Bwrdd.

## 6.1 Tynnu unigolion a oedd yn bresennol yn ôl

Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw un neu bob un o'r rheiny sydd fel arfer yn mynychu, ond nad ydynt yn aelodau, i dynnu yn ôl er mwyn hwyluso trafodaeth agored a didwyll ar faterion penodol.

## 6.2 Dosbarthu Papurau

Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn sicrhau bod yr holl bapurau'n cael eu dosbarthu o leiaf 5 niwrnod gwaith (7 diwrnod calendr) cyn y cyfarfod.

# 7 AELODAETH, MYNYCHWYR A CHWORWM

## 7.1 Aelodau

Bydd y Bwrdd yn penodi'r Pwyllgor o blith yr Aelodau nad ydynt yn Swyddogion yn yr Awdurdod Iechyd a bydd yn cynnwys dim llai na 3 aelod, yn cynnwys:

Cadeirydd: Aelod Annibynnol
Aelodau: Aelod Annibynnol x 4 (y mae un ohonynt yn Gadeirydd)

Bydd Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn penodi Cadeirydd y Pwyllgor, yn seiliedig ar argymhelliad Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ni fydd Cadeirydd y sefydliad yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ond gall Cadeirydd y Pwyllgor ei wahodd/gwahodd i fod yn bresennol fel sy'n briodol.

Y Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol | Ysgrifennydd y Bwrdd fydd yn penderfynu ar y trefniadau ysgrifenyddol a chymorth ar gyfer y Pwyllgor.

Fel rheol, bydd y Cyfarwyddwr Cyllid a chynrychiolwyr Archwilio Mewnol ac Allanol priodol yn mynychu cyfarfodydd. Fodd bynnag, o leiaf unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat â'r Archwilwyr Allanol a Mewnol heb i unrhyw Gyfarwyddwr Gweithredol na swyddog fod yn bresennol. Bydd modd cwrdd ag Archwilwyr yn breifat ym mhob cyfarfod.

**Mynychwyr disgwyliedig arferol eraill:**
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid
Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd
Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd
Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes
Pennaeth Archwilio Mewnol
Cynrychiolydd Archwilio Allanol
Cynrychiolydd Atal Twyll

## 7.2 Trwy wahoddiad

Gwahoddir y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i fod yn bresennol o leiaf unwaith y flwyddyn i drafod y broses sicrwydd sy'n cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i drafod y Cyfrifon yn y cyfarfod.

Gellir gwahodd Cyfarwyddwyr eraill i ddod pan fydd y Pwyllgor yn trafod meysydd risg neu weithrediad sy'n gyfrifoldeb y Cyfarwyddwr hwnnw.

## 7.3 Apwyntiadau

Bydd aelodaeth y Pwyllgor yn cael ei phennu gan y Bwrdd, yn seiliedig ar argymhelliad Cadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru – gan ystyried y cydbwysedd sgiliau ac arbenigedd sy'n angenrheidiol i gyflawni cylch gwaith y Pwyllgor ac yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfarwyddiadau penodol a wneir gan Lywodraeth Cymru.

Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod trefniadau cynllunio olyniaeth ar waith.

## 7.4 Cworwm

Mae'n rhaid i o leiaf dau aelod fod yn bresennol i sicrhau cworwm y Pwyllgor, a dylai un ohonynt fod yn Gadeirydd y Pwyllgor (neu'n Is-gadeirydd lle mae un wedi'i benodi/phenodi).

# 8 LLYWODRAETHU

## 8.1 Perthynas ac atebolrwydd gyda'r Bwrdd a'i Bwyllgor/Grwpiau

Mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd fod â pherthynas effeithiol â phwyllgorau neu is-bwyllgorau eraill y Bwrdd fel y gall ddeall y system sicrwydd ar gyfer y Bwrdd yn ei chyfanrwydd. Mae'n bwysig iawn bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn parhau i fod yn ymwybodol o'i rôl benodol ac nad yw'n ceisio cyflawni rôl pwyllgorau eraill.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y sicrwydd a ddarperir trwy waith pwyllgorau ac is-grwpiau eraill y Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau dros gynghori'r Bwrdd ar ddigonolrwydd fframwaith sicrwydd cyffredinol Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Bydd y Pwyllgor yn trefnu cyfarfodydd i gyd-fynd â gofynion statudol allweddol yn ystod y flwyddyn, yn unol â chynllun blynyddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Fusnes y Bwrdd.

## 8.2 Trefniadau Adrodd a Sicrwydd

Bydd y Pwyllgor yn darparu adroddiad ysgrifenedig blynyddol i'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr ar ei waith i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan roi sylwadau penodol ar y canlynol:

- Digonolrwydd y fframwaith sicrwydd
- I ba raddau y mae rheoli risg wedi'i ymgorffori'n gynhwysfawr trwy'r sefydliad
- Digonolrwydd y trefniadau llywodraethu, a;
- Phriodoldeb gweithgarwch hunanasesu yn erbyn safonau perthnasol.

Bydd yr adroddiad hefyd yn cofnodi canlyniadau hunanasesu a gwerthuso'r Pwyllgor.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn sicrhau bod trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith i rybuddio Cadeirydd neu Brif Weithredwr Iechyd a Gofal Digidol Cymru neu Gadeiryddion pwyllgorau perthnasol eraill am unrhyw faterion brys/difrifol a allai effeithio ar weithrediad a/neu enw da'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

## 8.3 Cymhwysedd rheolau sefydlog i Fusnes y Pwyllgor

Mae'r gofynion ar gyfer cynnal busnes, fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog yr Awdurdod Iechyd Arbennig, yr un mor berthnasol i weithrediad y Pwyllgor.

# 9 CYFEIRIADAU

| DOGFEN | FERSIWN |
|---|---|
| Rheolau Sefydlog | 1 |
| Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog | 1 |

# 10 DIFFINIADAU

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru |